

# FITZOSBERN, WILLIAM (bu farw 1071), iarll Henffordd, arglwydd Breteuil yn Normandy

**Enw:** William Fitzosbern

**Dyddiad marw:** 1071

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** iarll Henffordd, arglwydd Breteuil yn Normandy

**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Ceinwen Hannah Thomas

Câr a chyfaill William I. Efe oedd y cyntaf i gymell William i geisio goresgyn Lloegr a daeth yn bennaf gŵr yn y gwaith hwnnw; efe a fu'n gyfrifol, yn bennaf, am sefydlu teyrnasiad y Normaniaid ar arfordir Cymru ac am oresgyn Gwent. Daeth yn iarll Henffordd yn gynnar yn 1067, a bu i'w ymosodiadau trwm ar dir y goror beri i [Bleddyn a Rhiwallon ap Cynfyn](#) o Bowys ymuno fel cyngreiriaid â Saeson Mercia yn 1067 a pharhau yn y cyswllt hwnnw nes i wŷr Mercia ymostwng yn derfynol yn 1070. Gorchfygodd Fitzosbern [Faredudd a Rhys ab Owain](#), Deheubarth, a Chadwgan ap Meurig, Morgannwg (c. 1070), adeiladodd gestyll yn Wigmore, Clifford, Ewias Harold, Trefynwy, a Chepstow, a gorchfygodd Gwent. Ystyrir yn Lloegr ei fod yn ŷr gerwin, eithr yr oedd yn gymodlawn yn ei ymwneud â Chymry Gwent, gan adael i amryw ohonynt gadw eu tiroedd ar y telerau ffafriol a gawsent gan [Gruffydd ap Llywelyn](#); ni chollodd mo'r meiri Cymreig eu lle ychwaith. Cyn ymadael â'r wlad am y tro diwethaf daeth i delerau â [Maredudd ab Owain](#) a chaniatáu iddo drefedigaeth ('vill') Ley. Er mwyn cryfhau y gyfres o gestyll amddiffynnol ar y goror cysylltodd â hwynt fwrdeisdrefi y rhoddwyd siarteri iddynt, gan ddenu pobl i ymsefydlu ynddynt trwy roddi iddynt amodau byw ffafriol; e.e. rhoes i'w denantiaid Ffrengig yn Henffordd y breiniau rhyddfrydig a roesai i'w bobl yn Breteuil. Daeth y breiniau hyn yn batrwm i'r siarteri a roddwyd gan amryw o'r arglwyddi Normanaidd i'w bwrdeisdrefi hwythau, a bu ganddynt ddylanwad mawr yng Nghymru gan fod Henffordd yn cael edrych arni yn gyffredinol fel patrwm o fwrdeisdref. Lladdwyd Fitzosbern mewn brwydr yn Cassel, 20 Chwefror 1071, a chladdwyd ef yn Cormeilles yn Normandi.

## Awdur

Ceinwen Hannah Thomas, (1911 - 2008)

## Ffynonellau

Freeman, *The history of the Norman conquest of England, its causes and its results* (1867-79), iv, 66-72, 103-6, 111, 126, 241-3, 502-4

*Oxford Dictionary of National Biography*

*The English historical review*, 1900, 74, 76, 302-3, 305-8, 313, 317-8

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 150

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 374-6

*The Text of the Book of Llan Dâv* (Oxford 1893), 277-8

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1899 - 1900, 148

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William FitzOsbern](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1244579](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

